Cynghrair Niwrolegol Cymru
Wales Neurological Alliance

## Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol

## Dydd Mercher 22nd Gorffennaf 2020 (trwy ZOOM)

### Yn bresennol

Mark Isherwood AS (Cadeirydd)
Dai Lloyd AS
Vikki Howells AS
Ana Palazon, Parkinson's UK Cymru a Chadeirydd Cynghrair Niwrolegol Cymru
Dave Maggs, Headway
Nathan Sivapatham, Epilepsy Action Cymru
Carol McCudden, Ataxia UK
Melanie Andrews, MNDA
John Meredith, Cymdeithas Dystonia
Rebecca Brown, Swyddog Codi Ymwybyddiaeth Cynghrair Niwrolegol Cymru
Diane Gleeson, Cydlynydd Cynghrair Niwrolegol Cymru
Fiona McDonald, Cymdeithas MS Cymru
Matt O'Grady, y Gymdeithas Strôc
Dawn McGuinness, Parkinson's UK
Robert Wilson Thomas, FND Hope UK
Lesley Morris, Epilepsy Cymru
Miriam Wood, MESiG
Alan Thomas, Atacsia a Fi
Rebecca Hoskin BAVO
Annette Morris – Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Niwrowyddorau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Natalie Phillips, Seicolegydd Cynorthwyol Ysbyty Treforys
Phil Smith, Niwrolegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Athrofaol Cymru
Tanya Edmonds, Niwroseicoleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Karen Shepherd
Una Jones
Fiona Kettell
Cynghorydd Rylan
Ally
B3-A30
Sian Dorward
Nalia, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
Margaret Ware
Kham Steventon
Rebecca Hoskin
Lynda Kenway, Cydlynydd Grwpiau Gweithredu Strôc a Chyflyrau Niwrolegol Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru
Jacq Ogden
Martin McCudden

(Cofnodwyd yr enwau a ddangoswyd ar y sgrin adeg y cyfarfod. Os na ddangoswyd enw rhywun, ni chofnodwyd presenoldeb y person hwnnw. Ni chyflwynwyd unrhyw gyflwyniadau ffurfiol gan fod nifer fawr o bobl yn bresennol). E-bostiwch Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol yn wnacoordinator@gmail.com i ychwanegu neu gywiro eich enw yn unol â hynny fel bod y cofnod yn gywir. Diolch.

## Ymddiheuriadau

Lynne Hughes, MS Society Cymru, (Is-gadeirydd Cynghrair Niwrolegol Cymru)
Kate Steele, Shine
Catriona Fearn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Helen Owen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Chris Bennett, y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Cynthia Shepherd, MS Society
Dawn Golder, FND Hope UK
Llyr Gruffydd AS
Mike Hedges AS

## Cyflwyniad

Cyflwynodd Mark Isherwood, y Cadeirydd, y cyfarfod a chroesawu pawb. Oherwydd y nifer fawr o gyfranogwyr ar-lein, ni wnaed cyflwyniadau unigol.

## Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Nodwyd bod y cofnodion yn gyfrif gwir a chywir o’r cyfarfod. Cynigiwyd gan Ana Palazon, ac eiliwyd gan John Meredith.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## Adroddiadau Blynyddol 2018 a 2019 ac ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd

Gan fod y tri chyfarfod diwethaf wedi bod yn rhan o Ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol i’r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol (NCDP), nid oedd modd cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol 2018 na chynnal y CCB ym mis Rhagfyr 2019. Cyflwynwyd y ddau Adroddiad blynyddol yn y cyfarfod hwn.

Rhoddodd Ana Palazon grynodeb o’r ddau adroddiad. Nid oedd unrhyw gwestiynau.

Gofynnodd Ana Palazon am enwebiadau ar gyfer y Cadeirydd. Cynigiwyd Mark Isherwood gan Dai Lloyd ac eiliwyd y cynnig gan John Meredith.

Gofynnodd Mark Isherwood am enwebiadau ar gyfer rôl yr Ysgrifennydd. Cynigiwyd Diane Gleeson gan Ana Palazon ac eiliwyd y cynnig gan John Meredith.

## Adroddiad Ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol

Cyflwynodd Mark y cyflwyniad gan atgoffa’r grŵp bod y tri chyfarfod yn 2019 wedi canolbwyntio ar y pwnc hwn, yn cymryd tystiolaeth lafar gan bobl sy’n byw gyda chyflyrau niwrolegol, eu gofalwyr, clinigwyr a gweithwyr proffesiynol. Roedd disgwyl i Adroddiad yr Ymchwiliad gael ei lansio ym mis Mawrth 2020 ond, oherwydd y pandemig, cafodd y cyfarfod a'r lansiad hwnnw eu canslo tan y cyfarfod hwn ym mis Gorffennaf. Yn union cyn y cyfarfod hwn, dosbarthwyd copi o'r adroddiad i bawb ar y rhestr bostio. Fe'i cyhoeddwyd hefyd ar wefan Cynghrair Niwrolegol Cymru a gwefan y Grŵp Trawsbleidiol a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg.

Yna gwnaeth Ana gyflwyniad i'r grŵp yn crynhoi canfyddiadau Adroddiad yr Ymchwiliad. (copi ynghlwm)

Yna, agorwyd y cyfarfod i gwestiynau a sylwadau:

Holodd Annette Morris, Cyfarwyddwr Niwrowyddorau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch y sylw am y bwrdd iechyd ar dudalen 18. Roedd hi'n credu ei fod yn anghywir ac nad oedd yr adroddiad yn rhoi golwg gytbwys o'r bwrdd iechyd.

Nododd Matt O'Grady, o’r Gymdeithas Strôc, fod gan Adroddiad yr Ymchwiliad lawer o debygrwydd â'r adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn yr Ymchwiliad i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc. Cwestiynodd pam na wnaeth yr adroddiad hwn gyflwyno achos dros gynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau penodol at y dyfodol.

Roedd John Meredith, o'r Gymdeithas Dystonia, yn pryderu na fydd Adroddiad yr Ymchwiliad yn cael y ffocws y mae'n ei haeddu rhwng nawr ac etholiadau Cymru sydd ar ddod.

Awgrymodd Phil Smith, Niwrolegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, y byddai'n syniad da i bobl chwarae mwy o ran yn eu gofal eu hunain trwy gael copïau o'r holl lythyrau gan yr arbenigwyr.

Mae Jacq Ogden, sy'n byw gyda meigryn cronig, eisiau codi ymwybyddiaeth o'r cyflwr hwn. Mae hi'n credu y dylid ei gydnabod fel cyflwr niwrolegol a'i gynnwys yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol.

Gwnaeth Lynda Kenway, Cydlynydd Grwpiau Gweithredu Strôc a Chyflyrau Niwrolegol Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru groesawu'r adroddiad a bydd yn sicrhau bod ymateb ffurfiol yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Gwnaeth sawl person oedd yn bresennol longyfarch Grŵp Trawsbleidiol ar yr adroddiad.

### Ymateb Cynghrair Niwrolegol Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i COVID-19

Cyflwynodd Rebecca Brown, Swyddog Codi Ymwybyddiaeth y Gynghrair, gyflwyniad byr i'r grŵp ar y canfyddiadau'r Gynghrair a'u cyflwyno i'r Ymchwiliad COVID-19. Unwaith eto, agorwyd y cyfarfod i gwestiynau:

Roedd John Meredith, o'r Gymdeithas Dystonia, yn pryderu y bydd llawer o bobl wedi cael problemau gydag adsefydlu a hunanofal arferol gan fod pyllau a pharciau ar gau. Bydd hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach os bydd cynnydd arall yn nifer yr achosion.

Mynegodd Ana Palazon bryder ynghylch effaith COVID-19 ar wasanaethau adsefydlu i bobl â chyflyrau niwrolegol. Dywedodd Lynda Kenway wrth y grŵp fod Michelle Price, Arweinydd Clinigol ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol, yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu fframwaith adsefydlu ar ôl COVID-19 i Gymru.

### Y camau nesaf

Diolchodd Mark i bawb a gyfrannodd at yr Ymchwiliad. Gofynnodd am unrhyw sylwadau / cwestiynau a syniadau pellach ar gyfer y camau nesaf.

Awgrymodd Tanya Edmonds ei bod yn mynd i gyfarfod yn y dyfodol i egluro sut y dyrannodd y cyllid niwro-adsefydlu cymunedol yn Ne Orllewin Cymru.

Awgrymodd Mark y dylai ddefnyddio ei sesiwn ddadl ym mis Medi i gyflwyno Adroddiad yr Ymchwiliad i Lywodraeth Cymru.

### Camau i'w cymryd:

- Rhannu copi o gyflwyniad PowerPoint Adroddiad yr Ymchwiliad â'r grŵp
- Tanya Edmonds i gael gwahoddiad i cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol i gyflwyno ar y gwaith adsefydlu niwroseicoleg a wnaed yn ystod cyfnod presennol y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol - DG i anfon ei dyddiadau 2020
- Gwahodd Jacq Ogden i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol i drafod y materion a gododd ymhellach ar sut i godi ymwybyddiaeth o feigryn cronig - DG i anfon dyddiadau 2020
- Robert Wilson Thomas, FND Hope UK i gael ei wahodd i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol i godi ymwybyddiaeth o'i elusen a sut y gallant codi ymwybyddiaeth- DG i anfon dyddiadau 2020
- Cyflwyno copi o Adroddiad yr Ymchwiliad i Lywodraeth Cymru - AP
- Mark i ddefnyddio ei amser yn y ddadl ym mis Medi i gyflwyno Adroddiad yr Ymchwiliad i Lywodraeth Cymru - MI
- Ana a Mark i gwrdd yn ystod y mis nesaf i gynllunio sut y gellir defnyddio Grwpiau Trawsbleidiol yn y dyfodol i barhau â'r ffocws ar argymhellion yr adroddiad - DG i drefnu

### Unrhyw fater arall

Gofynnodd Ana am adborth ynglŷn â pha mor llwyddiannus oedd y cyfarfod ZOOM.  Un sylw oedd y gallai Teams fod yn opsiwn gwell gan nad oedd rhai sefydliadau yn caniatáu i'w gweithwyr ddefnyddio ZOOM yn y gwaith.  Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r fath.

### Diwedd
Daeth Mark â'r cyfarfod i ben am 3.10pm gan ddiolch i bawb am ymuno.